**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10am yn Nhŷ Rheidol, Aberystwyth a thrwy Microsoft Teams Ddydd Iau 5 Mai 2022**

**Yn Bresennol:** Cath Smith (Cadeirydd)
Melody Chapman (trwy Teams), Gareth Wynn Davies, John T Davies, Rhys Davies, Jack Evershed, Rachael Madeley Davies, Prys Morgan, Emlyn Roberts a Claire Williams

**Trwy Wahoddiad:** Victoria Jones, (Llywodraeth Cymru)
Maria Richards (Llywodraeth Cymru)

**Y Weithrediaeth yn bresennol:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Kirsten Hughes (Swyddog Gweithredol Cig Coch).
Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)
Glesni Phillips (Dadansoddydd Data) Eitemau Agenda 7a – 7c
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau)
Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu)

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

<u>I gael diweddariad gan Victoria Jones, Dirprwy Gyfarwyddwraig, Amaethyddiaeth – Is-adran Datblygu Cynaliadwy, Grŵp Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru</u>

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru a'r Is-adran wedi gweld nifer o newidiadau a heriau ers cyflwyniad y Dirprwy Gyfarwyddwr i'r Bwrdd yn y cyfarfod ar 2 Medi 2021:

- Roedd Dr Tim Render wedi rhoi'r gorau i fod yn Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn ystod Gwanwyn 2022 i ddilyn diddordebau personol a gwirfoddol
- Oddi ar etholiadau Mai 2021, cyflwynwyd newid mewn portffolios Gweinidogol a oedd yn golygu bod y briffiau Newid Hinsawdd a Materion Gwledig bellach yn adrannau ar wahân
- O ran polisi, roedd heriau'n parhau ar ôl i'r DG adael yr UE. Yn benodol, parhaodd problemau yn ymwneud â gwirio a rheoli mewnforion, achosion o ffliw adar yn y DG (gan weithio gyda Swyddfa'r Prif Filfeddyg (OCVO)) a'r gwrthdaro yn Wcrain yn effeithio'n sylweddol ar y pwysau economaidd a oedd yn arwain at yr argyfwng costau byw. Roedd y Mesur Amaethyddiaeth yn cael ei ddatblygu a byddai'n cael ei gyflwyno yn ystod hydref 2022 a byddai cam nesaf y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael ei lansio yn y Sioe Frenhinol Cymru nesaf.

Dechreuodd y rhan ffurfiol o gyfarfod y Bwrdd.

1. **<u>Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd</u>**

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu oddi ar gyfarfod blaenorol y Bwrdd:

17 Mawrth 2022 – Digwyddiad allforio Llywodraeth Cymru, Caerdydd

7 Ebrill 2022 – Diweddariad Timau Bwrdd HCC.

19 Ebrill 2022 – Cyfarfod o Bwyllgor Tâl HCC

20 Ebrill 2022 – Lansio gweminar Grŵp Llywio Iechyd a Lles Cnofilod ar gyfer yr adroddiad "Gweithredu ar Fethan: Cyfleoedd i sectorau gwartheg a defaid y DG"

2. **<u>Ymddiheuriadau am absenoldeb</u>**

Nodwyd ymddiheuriadau ar gyfer Aelod o'r Bwrdd, Huw Davies.

3. **<u>Datganiadau o Fuddiannau</u>**

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau newydd.

4. **<u>I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 3 Mawrth 2022 (HCC 1063)</u>**

Cymerwyd cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 3 Mawrth 2022 fel y'i darllenwyd, a chawsant eu cymeradwyo gan y Bwrdd a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **<u>Materion yn codi</u>**

*<u>Cynllun Busnes HCC 2022 / 2026 a Chynllun Gweithredol HCC 2022 / 2023</u>*

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod y naill ddogfen a'r llall wedi'u hanfon at y Gweinidog i'w hystyried.

6. **<u>Adroddiadau HCC</u>**

a. <u>Gweithgareddau (HCC 1064)</u>

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a chafodd gweithgareddau allweddol HCC eu hamlygu gan y Weithrediaeth.

b. <u>I dderbyn cyflwyniad ar weithgareddau datblygu marchnad yn y sector manwerthu</u>

Cafwyd cyflwyniad gan y Rheolwr Datblygu'r Farchnad am yr uchod a oedd yn rhoi sylw i gyflawniadau o ganlyniad i weithio ar y cyd â manwerthwyr ar amrywiol waith ymgyrchu Cig Oen Cymru gan gynnwys agweddau creadigol / deunyddiau pwynt gwerthu, a gweithgareddau mewn siopau a chyfryngau cymdeithasol. Roedd canlyniadau pob ymgyrch yn gadarnhaol iawn o ran cyrhaeddiad, cynnydd mewn gwerthiant a thwf o ran prynwyr yn ymgysylltu â'r categori Cig Oen.

Roedd y Swyddog Gwethredol ar hyn o bryd yn cynllunio gyda'r manwerthwyr ar gyfer gweithgareddau pellach.

Byddai'r cyflwyniad yn cael ei lanlwytho i Sharepoint er gwybodaeth i'r Bwrdd.

c. Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 1065)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd.

d. Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 31 Mawrth 2022 (HCC 1066)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a chafwyd crynhoad gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

e. Digwyddiadau i ddod (HCC 1067)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd.

Nodwyd bod HCC wedi cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau ar gyfer defnyddwyr a ffermwyr rhwng misoedd Mai a Hydref 2022.

f. I dderbyn papur ar Adolygiad Diwedd Blwyddyn o Gynllun Gweithredol HCC 2021 / 2022 (HCC 1068)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafwyd crynodeb gan y Swyddog Cig Coch.

7. **I drafod y cynnydd presennol mewn costau cynhyrchu ynghyd â'r dystiolaeth ddiweddaraf ynghylch cyflenwad a galw**

a. Cyflwyniad / Rhagair (HCC 1069)

b. Cyflenwadau Cig Byd-eang (HCC 1070)

c. Chwyddiant ar y Farchnad Cig Coch (HCC 1071)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a rhoddwyd crynodeb gan y Prif Weithredwr.

Paratowyd y papurau gwybodaeth fel man cychwyn ar gyfer trafodaeth gyda'r Bwrdd ar yr argyfwng costau byw byd-eang presennol.

Roedd y sector cig coch yn bwysig iawn i Gymru a'r sector amaethyddol. Yn dilyn Brexit a phandemig Covid-19, roedd y sector wedi wynebu llawer o ansicrwydd a heriau, ynghyd â bargeinion masnach newydd a newidiadau mewn taliadau cymorth amaethyddol. Roedd y sector cig coch bellach yn wynebu heriau oherwydd chwyddiant cynyddol wrth i gostau ynni, tanwydd a bwyd i gyd gyfrannu at y cynnydd cyflymaf ers 30 mlynedd mewn prisiau yn y DG.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod nifer o bwyntiau trafod ym mhapurau HCC 1070 (Tueddiadau Cynhyrchu Cig Coch Byd-eang) a HCC 1071 (Chwyddiant a'r Farchnad Cig Coch) yn tynnu sylw at yr angen i gynhyrchu bwyd o ansawdd uchel i fwydo'r wlad, a gwneud hynny trwy ddulliau cynaliadwy.

Yn ôl yr 'Adroddiad Diogelwch Bwyd y Deyrnas Unedig' diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DG, mae'r Deyrnas Gyfunol ar hyn o bryd yn cynhyrchu tua 60% o'i fwyd domestig yn ôl gwerth economaidd ac yn dibynnu ar fewnforion am y gweddill.

Wrth i chwyddiant barhau i godi yn y DG, cynyddodd costau cynhyrchu ar gyfer systemau Cig Eidion a Chig Oen yng Nghymru. Roedd costau mewnbwn allweddol y fferm - gan gynnwys tanwydd, gwrtaith, a phorthiant i gyd wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y 12 mis diwethaf, a chafodd hyn effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar nifer o fusnesau yn y sector amaethyddol. Roedd cost gynyddol cynhyrchu yn golygu bod elw cynhyrchwyr yn gyfyng wrth i ffermwyr reoli mewnbynnau er mwyn cynyddu cynhyrchiant. Ar hyn o bryd, mae'r prisiau i'r ffermwr yn gadarn o'u cymharu â'r hyn oeddent, a bydd hyn yn help i leddfu rhywfaint o'r pwysau oherwydd costau mewnbwn uwch.

Byddai'r Weithrediaeth yn gwneud mwy o waith yn y maes hwn a byddai hyn yn cynnwys ymchwil a choladu data ynghylch:

a. Bwriadau ffermwyr ynghylch costau cynhyrchu cynyddol ac ymddygiadau'r gadwyn gyflenwi

b. Ymddygiadau defnyddwyr gan gynnwys data manwl o'r sectorau gwasanaeth bwyd a manwerthu

Gellid defnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu dros gyfnod o amser ac sy'n cael ei thracio'n rheolaidd i roi gwybod i'r diwydiant a llunwyr polisïau am yr heriau a'r cyfleoedd posibl sy'n wynebu'r sector amaethyddiaeth yn awr ac yn y dyfodol.

Nodwyd y byddai Mesur Amaethyddiaeth (Cymru) Llywodraeth Cymru yn cael ei gyflwyno i'r Senedd yn yr Hydref. Byddai argymhellion diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd yn destun ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2022 ac felly cytunwyd i wahodd James Owen, Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwygio Rheoli Tir i gyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf.

## 8. **Pwyllgorau HCC**

Y Pwyllgor Gwaith ar Iechyd a Lles Diadelloedd a Buchesi

a. *I gael adroddiad llafar am y Pwyllgor Datblygu Ymchwil a Chyfnewid Gwybodaeth a gynhaliwyd ddydd Mercher 27 Ebrill 2022*

Cafwyd adroddiad llafar am yr uchod gan Gadeirydd Dros Dro y Pwyllgor, Prys Morgan.

Y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata

b. *I dderbyn adroddiad llafar a mabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata a gynhaliwyd ddydd Mawrth 8 Mawrth 2022 (HCC 1072)*

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

Defnyddiwyd y cofnodion fel adroddiad i'r Bwrdd heb unrhyw faterion yn codi.

Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

c. *I fabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Iau 3 Mawrth 2022 (HCC 1073)*

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

Y Pwyllgor Cyfathrebu

d. *I dderbyn adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Cyfathrebu a gynhaliwyd ddydd Iau 5 Mai 2022*

Cafwyd adroddiad ar yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor.

9. **Unrhyw fater arall**

Dyddiad cau datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau y DG (UK ETS) yw 17 Mehefin 2022

Nodwyd y byddai HCC yn ymateb i'r ymgynghoriad uchod dan arweiniad Defra. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion oedd 17 Mehefin 2022.

10. **Dyddiadau cyfarfodydd i ddod**

Diweddariad telegynhadledd y Bwrdd – Dydd Mercher 1 Mehefin 2022, 9.30am
Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Iau 7 Gorffennaf 2022. Yr amser heb ei drefnu

11. **I dderbyn diweddariad ar Adolygiad Cyflawni Gweithredol HCC**

Nid oedd diweddariad i’w roi.

**Llofnodwyd…………………………….**